



Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisiau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.

Cefndir

Mae Siarter Frenhinol ac arian ffi'r drwydded yn rhoi'r BBC mewn sefyllfa unigryw, ac yn ei alluogi i wneud pethau na all darparwyr cyfryngau eraill eu gwneud. Dros gyfnod y Siarter diwethaf, galwodd Ymddiriedolaeth y BBC ar i'r BBC fod yn fwy nodedig, yn arbennig o ran ei wasanaethau prif ffrwd.¹ Mae'r BBC ei hun wedi cydnabod y dylai geisio bod yn fwy nodedig.²

Polisi'r llywodraeth

Nod y llywodraeth yw creu'r strwythurau sy'n galluogi'r BBC i ddatgelu ei greadigrwydd a'i dalent er mwyn darparu cynnwys nodedig o'r radd flaenaf i gynulleidfaeoedd. Er mwyn gwneud hyn mae'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys natur nodedig yng nghanhadaeth, dibenion a fframwaith rheoleiddio'r BBC.

Y darpariaethau yn y Siarter a'r Cytundeb

Y Siarter Frenhinol, Erthygl 5: Cenhadaeth y BBC. Mae'r Siarter hon yn ymhelaethu ar genhadaeth y BBC o ran cynnwys natur nodedig yn ogystal ag elfennau eraill sy'n sylfaenol i'w amcan: *'gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, o ansawdd uchel a nodedig sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.'*

Y Siarter Frenhinol, Erthygl 6(4): Diben Cyhoeddus y BBC. Mae'r Siarter hon yn diwygio'r dibenion presennol, gan adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan Ymddiriedolaeth y BBC a safbwyntiau o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n cyfeirio at gynnwys nodedig. Mae pedwerydd diben y BBC yn dechrau drwy ddweud: *'I ddangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, o'r ansawdd gorau a nodedig.'*

¹BBC Trust, Service Review of BBC Television, Gorffennaf 2014, t.32: http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/regulatory_framework/service_licences/service_reviews/television_services/television_services.pdf

BBC Trust, Service Review Radio 1, 1Xtra, Radio 2, Radio 3, 6 Music and Asian Network, Mawrth 2015, t.7: http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/music_radio/music_radio.pdf

²Araith yr Arglwydd Hall yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth ar weledigaeth y BBC yn y dyfodol, 7 Medi 2015: <http://www.bbc.co.uk/mediacentre/speeches/2015/tony-halldistinctive-bbc>

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/collections/bbc-charter-review. Os hoffech drafod cynnwys y daflen wybodaeth hon, cysylltwch â enquiries@culture.gov.uk Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â thîm Newyddion a Chysylltiadau DCMS ar 020 7211 2210

Cytundeb Fframwaith, Atodlen 2: Er mwyn sicrhau rheoleiddio effeithiol mae angen dealltwriaeth glir o'i amcanion. Mae'r atodlen hon yn nodi'r nodau ar gyfer y fframwaith rheoleiddio newydd a rhai meysydd yn arbennig y bydd angen i Ofcom eu hystyried wrth nodi'r amodau rheoleiddio cyntaf a bennwyd drwy broses yr Adolygiad o'r Siarter.